Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Heddlu Police DYFED-POWYS

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# Cyd-Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol

## Cwestiynau cyffredin

## 1 BETH YW'R CYD-FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL?

Dogfen yw'r Cyd-Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (CFfLIC) sy'n amlinellu'r systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd sy'n llywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

## 2 PAM MAE ANGEN CFfLIC ARNOM?

Mae llywodraethu yn golygu sicrhau fod y pethau cywir yn cael eu gwneud yn y ffordd gywir, am y rheswm cywir ac ar yr amser cywir, mewn ffordd agored a thryloyw. Mae llywodraethu da yn arwain at reoli da, perfformiad da, a bod arian cyhoeddus yn cael ei stiwardio'n dda gan arwain at ganlyniadau da i'r cyhoedd.

## 3 BETH SYDD YN CAEL EI GYNNWYS YN Y CFfLIC?

Mae'r CFfLIC yn cynnwys nifer o ddogfennau:

***Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol*** – sy'n amlinellu'r fframwaith statudol y bydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gweithredu oddi mewn iddo, gan gynnwys eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau fel y nodir mewn deddfwriaeth.

***Cod Llywodraethu Corfforaethol*** – sy'n cyflwyno egwyddorion craidd llywodraethu da o fewn plismona.

***Cynllun Llywodraethu Corfforaethol*** – sy'n cynnwys nifer o ddogfennau sydd ar y cyd yn nodi sut y bydd y ddau sefydliad yn cynnal eu busnes er mwyn sicrhau y bydd yn cael ei gyflawni mewn modd effeithlon a bod penderfyniadau'n agored, yn dryloyw a heb eu gohirio'n ddiangen. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys:

- *Cynllun caniatâd* - y rolau allweddol y mae'r CHTh yn "caniatáu" i'r PG ymgymryd â hwy fel endid cyfreithiol ar wahân;
- *Cynllun dirprwyo* – rolau allweddol y CHTh a'r PG, a throsglwyddiad yr awdurdod a'r cyfrifoldeb y maent yn eu dirprwyo i eraill;
- *Gwneud penderfyniadau* – yr egwyddorion a'r prosesau ar gyfer penderfyniadau nad ydynt wedi eu dirprwyo;
- *Rheoliadau ariannol* – y fframwaith rheoleiddio cyffredinol ar gyfer rheolaeth ariannol y ddau sefydliad;
- *Rheolau sefydlog ar gontractau* - y fframwaith caffael ar gyfer y ddau sefydliad.

## 4 PWY DDYLAI FOD YN DEFNYDDIO'R CFfLIC?

Pob un ohonom! Rhaid i swyddogion a staff weithredu o fewn paramedrau'r Cyd-Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau'r Heddlu.

Dylai'r Cyd-Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, yn benodol, gael ei ddefnyddio fel canllaw i swyddogion a staff wrth iddynt gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd.

## 5 PRYD Y BYDD ANGEN I FI DDEFNYDDIO'R CFfLIC?

Dyma rai enghreifftiau o adegau y bydd angen i chi gyfeirio at y CFfLIC:

- Wrth gaffael cyflenwadau neu wasanaethau;
- Wrth dendro ar gyfer cyflenwadau neu wasanaethau;
- Wrth brosesu taliadau'n ymwneud â bonysau, cynlluniau taliadau yn ymwneud â pherfformiad, taliadau honoriara, pecynnau adleoli, cynlluniau budd-daliadau neu newidiadau i delerau ac amodau i wasanaeth swyddogion a staff;
- Pan mae cymorth busnes i'r Heddlu'n cael ei ddarparu gan SCHTh (neu i'r gwrthwyneb);
- Wrth ddelio gyda chais am wybodaeth;
- Pan mae angen penderfyniad ynglŷn â gweithrediadau anweithredol;
- Os ydych yn gyfrifol am reoli cyllideb;
- Os cynigir anrhegion, benthyciadau neu enwebiadau i'r Heddlu/SCHTh; ac
- Wrth ystyried trefniadau gweithio ar y cyd gyda phartneriaid.

Yn ogystal â'r CFfLIC, mae'n bosib y bydd angen i chi gyfeirio at bolisïau, gweithdrefnau a phrotocolau'r Heddlu a/neu SCHTh a fydd yn darparu canllawiau arfer gorau mewn sefyllfaoedd gwaith penodol.

## 6 IAWN, FELLY BLE GALLA I DDARGANFOD...?

### *Manylion ynglŷn â'r Llu a SCHTh yn cyd-weithio?*

Mae Adran 3 (Cynllun Llywodraethu Corfforaethol) yn egluro sut bydd y CHTh a'r PG yn gweithio gyda'i gilydd, a phryd y bydd raid iddynt weithio'n annibynnol.

### *Gwybodaeth ar gyfyngiadau gwariant?*

Mae Adran 4 (Cynllun Dirprwyo) yn amlinellu pwy sydd â'r awdurdod i wneud beth a phryd. Fwy na thebyg, yr adran a fydd yn cael ei defnyddio amlaf fydd 4.3.7 – cyfyngiadau cymeradwyo mewn perthynas â chytundebau, archebion, anfonebau a symudiadau cyllidebol heb fod yn daliadau. Mae hyn yn egluro beth yw'r cyfyngiadau gwario, y broses sydd angen ei defnyddio a pha awdurdod sydd ei angen.

Mae Adran 12 (Terfynau Dirprwyedig) yn egluro
cyfyngiadau cyllidebol dirprwyedig mewn cysylltiad â rheoliadau cyllidebol.

***Gwybodaeth ynglŷn â sawl dyfynbris sydd eu hangen neu os oes angen i mi gyflawni ymarfer caffael cyflawn?***

Mae Adran 14.4 (Trothwyon Caffael) yn diffinio pryd y mae angen un dyfynbris, tri dyfynbris neu ymarfer tendro llawn arnoch a sut i wneud hynny.

## 7 A OEDDECH CHI’N GWYBOD?

1.1.3 Mae Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, y cyfeirir ati o hyn allan fel ‘Deddf 2011’, yn sefydlu’r CHTh a’r PG fel corfforaethau undyn ynddynt eu hunain a chanddynt gyfrifoldebau penderfynu cydategol ond ar wahân. Y CHTh sy’n gyfrifol am blismona yn ei gyfanrwydd o fewn ardal Dyfed-Powys, gan gynnwys penodi a diswyddo’r PG, pennu’r cyfeiriad strategol ar gyfer plismona a dwyn y PG i gyfrif mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau plismona. Y PG sy’n gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau plismona effeithiol ac effeithlon yn cael ei drosglwyddo’n weithredol.

1.4.2 Mae’r Cydbwyllgor Archwilio (CBA) yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, fframweithiau rheoli risg a rheolaeth, gan gynnwys adroddiadau ariannol, prosesau llywodraethu blynyddol a chanfyddiadau archwiliadau mewnol ac allanol.

3.1.4 Ni all y CHTh ddirprwyo unrhyw un o’i swyddogaethau i staff o dan gyflogaeth y PG. Fodd bynnag, gellir defnyddio swyddogion a staff y PG i gynorthwyo’r CHTh i ymgymryd â’i swyddogaethau.

3.2.1 Y CHTh sy’n gyfrifol am ddal Cronfa’r Heddlu ac am dderbyn a rheoli grantiau, rhoddion a benthyciadau.

3.2.2 Mae gan y CHTh a’r PG gyfrifoldeb ar y cyd i reoli’r gyllideb plismona yn effeithiol ac i sicrhau gwerth am arian wrth ymgymryd â’u swyddogaethau.

3.3.8 Mae 3 o amgylchiadau lle gellir ceisio cymorth busnes gan y parti arall. Gelwir y rhain yn drefniadau cydweithredol ac maent fel a ganlyn:

- Mae’r CHTh yn dymuno ceisio cymorth gan staff y PG;
- Mae’r PG yn dymuno ceisio cymorth gan staff y CHTh; ac
- Mae’r CHTh a’r PG yn cytuno ar y cyd i gomisiynu gwaith sydd i’w wneud naill ai gan staff y CHTh, neu staff y PG, neu’r ddau.

3.3.15 Gellir hysbysebu swyddi a gellir symud staff rhwng y CHTh a’r PG fel y cytunir ganddynt yn unol â pholisïau, arferion a gweithdrefnau sefydledig.

3.6.2 Mae gan y CHTh ddyletswydd, wrth gyflawni unrhyw un o’i swyddogaethau, i roi sylw i farn y cymunedau yn ardal Dyfed-Powys am blismona, am y Cynllun Heddlu a Throseddu ac am gynigion ar gyfer gwariant.

3.6.3 Mae gan y PG hefyd ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer canfod barn pobl ym mhob cymdogaeth yn ardal Dyfed-Powys am droseddau ac anhrefn yn y cymdogaethau hynny ac i roi gwybodaeth i'r bobl hynny am blismona yn y cymdogaethau hynny.

3.7.1 Mae'r CHTh a'r PG yn rheolwyr a phroseswyr data ac mae ganddynt ddyletswyddau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig, Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

3.7.5 Er mwyn galluogi'r CHTh i ymgymryd â'i swyddogaethau yn effeithiol, bydd angen iddo gael mynediad i wybodaeth, swyddogion a staff o fewn ei ardal heddlu. Bydd y CHTh a'r PG yn rhannu gwybodaeth lle bo'n briodol i gefnogi ei gilydd wrth ymgymryd â'u swyddogaethau; lle mae hyn yn ymwneud â rhannu data personol, bydd rhannu o'r fath yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data a GDPR y DU fel y bo'n briodol. Ni ddylid gwrthod mynediad i wybodaeth yn afresymol. Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth (CRG) yn diogelu'r prosesau o gwmpas rhannu gwybodaeth bersonol yn rheolaidd rhwng CHTh a'r PG. Mae'r Cytundeb Rhannu Gwybodaeth yn cadarnhau'r cytundeb y daeth CHTh a'r PG iddo yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 26 Ionawr 2022 y bydd gwybodaeth HDP heb ei golygu'n cael ei rhannu â gwirfoddolwyr CHTh ar gyfer dibenion ymarferion craffu.

3.9.1 Mae'r PG yn gyfrifol am waith cynnal a chadw o ddydd i ddydd a materion gweithredol sy'n ymwneud ag ystâd CHTh. Caiff yr holl wasanaethau a phrosiectau ar ystadau, yn cynnwys y rhai sy'n cael eu gyrru gan benderfyniadau strategol y CHTh a'r rhai sy'n cael eu gyrru gan anghenion gweithredol/cynnal a chadw, eu harwain gan Gyfarwyddwr Ystadau'r PG dan arweiniad a chyfarwyddyd y Strwythur Llywodraethu.

Gweler dolen ar gyfer y fersiwn gyflawn o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar ein wefan.